

Gofal Iechyd GIG Parhaus

1. Beth ydy Gofal Iechyd GIG Parhaus?




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r Llyfryn Gwybodaeth am Ofal Iechyd GIG Parhaus ar gyfer Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr.

Hydref 2022

Am y llyfryn yma.....	3
Beth ydy Gofal Iechyd GIG Parhaus?.....	6
Pwy sydd yn talu am beth?.....	10
GIG.....	11
Awdurdod Lleol.....	13
Sut i gysylltu gyda'ch Bwrdd Iechyd Lleol.....	16
Cysylltiadau defnyddiol eraill.....	21
Geiriau anodd.....	25

Am y llyfryn yma



Mae'r llyfryn yma yn **rhan 1** o 5 canllaw hawdd eu deall i Ofal Iechyd GIG Parhaus.



Mae wedi ei ysgrifennu ar sail canllaw sydd wedi cael ei ysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Rydych chi'n gallu darllen y canllaw gwreiddiol yma: llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr.

Mae 5 llyfryn hawdd eu deall:

- 1. Beth ydy Gofal Iechyd Parhaus (GIP)?**
- 2. Canllaw hawdd ei ddeall i asesiadau GIP**
- 3. Pwy sydd yn gymwys i cael GIP?**
- 4. Sut mae GIP yn cael ei drefnu?**
- 5. Beth sydd yn digwydd os nad ydw i'n gymwys i gael GIP?**



Maen nhw ar gael yma: llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr.



Mae'r llyfryn yma wedi cael ei wneud yn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cysylltwch gyda Llywodraeth Cymru os ydych chi angen y llyfryn yma mewn unrhyw fformat arall.



Mae gwybodaeth am Ofal Iechyd GIG Parhaus ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yma: llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr.

Neu rydych chi'n gallu cysylltu gyda Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth:



Drwy'r post: Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



Ar y ffôn: 0300 0604400

Drwy e-bost: cymorth@llyw.cymru



Mae gwybodaeth gyswllt eich bwrdd iechyd lleol ar gael ar **dudalen 16** yn y llyfryn yma.



Neu maen nhw ar gael ar wefan **Galw Iechyd Cymru**: 111.wales.nhs.uk/localservices/localhealthboards?locale=cy&term=A.

Beth ydy Gofal Iechyd GIG Parhaus?



Pecyn ar ofal parhaus ydy **Gofal Iechyd GIG Parhaus**. Mae'n cael ei drefnu ac yn cael ei dalu gan y GIG.

Mae hefyd yn cael ei alw yn **GIP** yn fyr. Fe fyddwn ni yn ei alw yn GIP o hyn ymlaen yn y llyfrynnau hawdd eu deall yma.

Mae GIP ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal sydd yn bennaf yn gysylltiedig gyda iechyd. Efallai oherwydd:



- rydych chi yn anabl



- mae gennych chi salwch hir dymor



- rydych chi wedi cael damwain.

Mae GIP yn gallu cael ei ddarparu lle bynnag rydych chi'n byw, fel:



- eich cartref eich hun



- cartref gofal



- **hosbis** – lle mae pobl yn cael gofal a chymorth arbenigol pan maen nhw'n agos at ddiwedd eu bywyd.



- yn y carchar.



Mae amrediad o weithwyr iechyd a gofal yn gallu rhoi GIP. Er enghraifft, nyrs, therapydd neu gynorthwy-ydd personol.



Eich Bwrdd Iechyd Lleol sydd yn gyfrifol am edrych i weld os ydych chi'n **gymwys** ar gyfer GIP.

Mae **cymwys** yn meddwl bod gennych chi hawl i gael GIP oherwydd eich bod chi'n ateb yr amodau.



Dim ond 1 amod sydd angen i chi ei ateb i fod yn **gymwys** ar gyfer GIP. Rhaid i chi fod ag **angen iechyd sylfaenol**.



Efallai bod gennych chi lawer o wahanol anghenion. Mae **angen iechyd sylfaenol** yn meddwl bod eich anghenion gofal yn bennaf yn **berthynol i iechyd**.



Mae eich Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am wneud **asesiad** i weld os oes gennych chi **angen iechyd sylfaenol**.

Asesiad ydy pan mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn dod at ei gilydd i benderfynu beth ydy eich anghenion. A sut y dylai eich anghenion gael eu hateb.



Am ragor o wybodaeth am **asesiadau** GIP darllenwch **lyfryn 2** os gwelwch yn dda.



Am ragor o wybodaeth am fod yn **gymwys** darllenwch **lyfryn 3** os gwelwch yn dda.

Pwy sydd yn talu am beth?

Os oes gennych chi anghenion gofal sydd yn para yn hir, fe fydd eich gofal yn gyfrifoldeb i naill ai:



- y GIG



- eich Awdurdod Lleol



- neu'r ddau.

GIG



Mae holl wasanaethau GIG am ddim. Felly os ydych chi yn **gymwys** ar gyfer GIP, fe fydd y GIG yn talu am eich **holl** ofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Os ydych chi'n byw yn eich cartref eich hun



- Fe fydd y GIG yn talu am eich holl wasanaethau gofal iechyd. Fel gofal nyrsio a therapyddion.



- Fe fydd y GIG yn talu am eich anghenion gofal cymdeithasol. Fel help gydag ymolchi a gwsigo.



- **Ni fydd** y GIG yn talu am rhent neu forgais, bwyd neu gostau cartref cyffredinol.

Os ydych chi'n byw mewn cartref gofal



- Fe fydd y GIG yn gwneud contract gyda'r cartref gofal. Mae hyn yn gytundeb cyfreithiol ysgrifenedig rhwng y GIG a'ch cartref gofal.



- Fe fydd y GIG yn talu i'ch cartref gofal ddarparu eich **holl** wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



- **Ac** fe fydd y GIG yn talu eich ffioedd llety i'ch cartref gofal – fel rhent a bwyd.



Eich Bwrdd Iechyd Lleol sydd yn gyfrifol am gynllunio a darparu eich pecyn gofal GIP.

Awdurdod Lleol



Os **nad** oes gennych chi angen iechyd sylfaenol, mae eich awdurdod lleol yn gallu darparu eich gofal a chymorth. Drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol.



Fe fydd hyn yn digwydd os oes gennych chi anghenion gofal cymdeithasol yn bennaf.



Mae'r gwasanaethau yma yn cael eu **modd-brofi**.

Mae **modd-brofi** yn meddwl bod y swm o arian sydd gennych chi yn gallu effeithio ar a ydych chi'n gallu cael rhywbeth am ddim neu beidio. Neu a oes rhaid i chi dalu rhywfaint tuag ato.

Mae eich **modd**, neu eich arian, yn cynnwys pethau fel faint rydych chi'n ei ennill, faint o arian sydd gennych chi mewn cynilion a faint rydych chi'n berchen arno.



Os ydy'r awdurdod lleol yn darparu eich gofal a'ch cymorth efallai bydd rhaid i chi dalu rhywfaint tuag ato.

Oes angen imi dalu tuag at gostau fy nghartref gofal os ydw i'n gymwys i gael GIP?

Nac oes, ond rydych chi'n gallu dewis talu am rhai pethau ychwanegol fel:



- Gwasanaethau ychwanegol. Er enghraifft, sesiynau ffisiotherapi ychwanegol, ar ben y rhai sydd yn eich cynllun gofal.



- Llety sydd yn costio mwy. Er enghraifft, ystafell fwy.



Mae'r arian rydych chi'n ei dalu am bethau ychwanegol fel hyn weithiau yn cael ei alw yn **ffi atodol**.



Maen nhw'n daliadau ar wahân rydych chi'n ei drefnu gyda darparrydd eich cartref gofal.



Eich dewis chi yn gyfan gwbl ydy'r taliadau ychwanegol yma.



Ddylech chi ddim talu am bethau oherwydd nad ydych chi'n cael digon o arian gan eich Bwrdd Iechyd Lleol neu eich Awdurdod Lleol i ateb eich anghenion.



Os ydy eich cartref gofal yn gofyn i chi dalu am wasanaethau ychwanegol dydych chi ddim wedi cytuno â nhw, cysylltwch gyda'ch Bwrdd Iechyd Lleol ar unwaith.



Mae manylion cyswllt ar gyfer eich Bwrdd Iechyd Lleol ar **dudalennau 16 i 20**.



Neu maen nhw ar wefan **Galw Iechyd Cymru: 111.wales.nhs.uk/localservices/localhealthboards?locale=cy&term=A**.

Sut i gysylltu gyda'ch Bwrdd Iechyd Lleol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Am GIP:



Post: Gweinyddydd Hawliadau Ôl-Weithredol
Tîm Gofal Hir Dymor
Bloc A,
Ysbyty Castell-nedd Port Talbot
Baglan Way
Port Talbot
SA12 7BX

Ffôn: 01639 684561

Cyswllt cyffredinol:

E-bost: sbu.inquiries@wales.nhs.uk

Ffôn: 01639 683344

Gwefan: [Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe](#)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Am GIP:

Post: Gofal Cymhleth
Tŷ Cwmbran
Ystad Parc Mamhilad
Pont-y-pŵl

Ffôn: 01495 332173

Cyswllt cyffredinol:

Ffôn: 01873 732732

E-bost: abhb.enquiries@wales.nhs.uk

Gwefan: [Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan](#)



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Am GIP:

Post: Bloc 5,
Llys Carlton
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
LL17 0JG

Cyswllt cyffredinol:

Ffôn: 01248 384 384

E-bost: bcu.info@wales.nhs.uk

Gwefan: [Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr](#)



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Am GIP:

Post: Gofal Parhaus Ôl-Weithredol
Tîm GIP Ôl-Weithredol
Lleoliad De Ddwyrain
Ysbyty Brenhinol Caerdydd
Glossop Terrace
Caerdydd
CF24 0SZ

E-bost: Retro.Chcadmin@wales.nhs.uk

Ffôn: 02920 335509

Cyswllt cyffredinol:

Ffôn: (029) 2074 7747

E-bost: Intranews@wales.nhs.uk

Gwefan: [Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro](#)



Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Am GIP:



Post: Geraldine Thomas
Adolygydd Nyrsus Cofrestredig
Pencadlys BIP Cwm Taf
Tŷ Ynysmeurig
Uned 3 Navigation Park
Abercynon
Rhondda Cynon Taf
CF45 4SN

Cyswllt cyffredinol:

Ffôn: 01443 744800

E-bost: Pryderon_ctm@wales.nhs.uk

Gwefan: [Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg](#)



Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Am GIP:

Post: Aldyth King – Gofal Hir Dymor
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Bloc 6 Ysbyty Tywysog Philip
Bryngwynmawr, Dafen
Llanelli
SA14 8QF

Cyswllt cyffredinol:

Ffôn: 01267 235151

Cyswllt: [Ffurflen adborth ar-lein](#)

Gwefan: [Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda](#)



Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Am GIP:

Post: Tîm Gofal Cymhleth
Ystafell 90
Neuadd Brycheiniog
Cambrian Way
Aberhonddu
Powys
LD3 7HR

Cysylltiad cyffredinol

Ffôn: 01874 711661

E-bost: geninfo@powyslhb.wales.nhs.uk

Gwefan: [Bwrdd Iechyd Addysgu Powys](#)



Cysylltiadau defnyddiol eraill

Mae'r grwpiau a'r cyrff yma yn gallu eich helpu chi i:



- ddeall pa ofal iechyd gofal GIG mae gennych chi hawl i'w gael



- cwyno os nad ydych chi'n hapus



Cwynion a phryderon GIG Cymru: Gweithio i Wella



Os ydych chi'n poeni am eich gofal neu eich triniaeth, siaradwch gyda'r staff sydd yn ymwneud gyda'ch gofal mor fuan â phosibl.



Fe fyddan nhw yn ceisio datrys beth sydd yn eich poeni ar unwaith.



Os nad ydy hyn yn helpu, neu os nad ydych chi eisiau siarad gyda'r staff, rydych chi'n gallu cysylltu gyda'r tîm cwynion yn eich bwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth iechyd:

llyw.cymru/cwynion-phryderon-am-gig-cymru-gweithio-i-wella

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru



Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ateb gan eich bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd, rydych chi'n gallu cysylltu gydag **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**:

Post: 1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol



Ffôn: 02920 447710

E-bost: wales@equalityhumanrights.com



Cyngorau Iechyd Cymuned

Mae Cyngorau Iechyd Cymuned yn gallu eich helpu i gwyno am wasanaethau'r GIG:

Ffôn: 02920 235 558

E-bost: enquiries@waleschc.org.uk

Cyngor ar Bopeth



Mae Cyngor ar Bopeth yn gallu eich helpu chi i ddeall eich hawliau a rhoi cyngor a chymorth i chi:

Ffôn: 03444 77 20 20

Cymorth Eiriolaeth Cymru



Mae Cymorth Eiriolaeth Cymru yn gallu rhoi **eiriolydd** i chi – rhywun sydd yn helpu i gael eich llais wedi ei glywed ac sydd yn gallu siarad i fyny ar eich rhan:

Ffôn: 029 2054 0444

E-bost: info@ascymru.org.uk

Carers Direct



Cymorth i ofalwyr

Ffôn: 0300 123 1053

Carers UK



Cymorth i ofalwyr:

Ffôn: 0800 808 7777

Family action



Cymorth i rieni a gofalwyr:

Ffôn: 0808 802 6666

Testun: 07537 404 282

E-bost: familyline@family-action.org.uk

Geiriau anodd

Asesiad

Asesiad ydy pan mae grŵp o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn dod at ei gilydd i benderfynu beth ydy eich anghenion. A sut y dylai eich anghenion gael eu hateb.

Cymwys

Mae cymwys yn meddwl bod gennych chi hawl i gael GIP oherwydd eich bod chi yn ateb yr amodau.

Modd-brofi

Mae modd-brofi yn meddwl bod y swm o arian sydd gennych chi yn gallu effeithio ar a ydych chi'n cael rhywbeth am ddim neu beidio. Neu a oes rhaid i chi dalu rhywfaint tuag ato.

Mae eich modd, neu eich arian, yn meddwl pethau fel faint rydych chi'n ennill, faint o arian sydd gennych chi mewn cynilion a faint rydych chi'n berchen arno.